

MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

RHWNG

Coleg Brenhinol yr Anesthetegyddion

ac

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

1. TESTUN Y MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

1.1 Fframwaith rhannu gwybodaeth rhwng Coleg Brenhinol yr Anesthetegyddion ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

2. PARTÏON

2.1 Y parffion yn y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn yw:

(A) Coleg Brenhinol yr Anesthetegyddion

(B) Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

3. CEFNDIR Y MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

3.1 Coleg Brenhinol yr Anesthetegyddion yw'r corff cyfrifol am yr arbenigedd hwn ledled y DU, ac mae'n sicrhau safon gofal cleifion drwy gynnal a chadw safonau mewn anestheteg, gofal critigol a meddyginiaethau rheoli poen. Mae'r corff yn rhedeg Achrediad Gwasanaethau Clinigol Anesthesia (ACSA), sy'n gynllun gwirfoddol ar gyfer y GIG a sefydliadau yn y sector annibynnol sy'n cynnig cyfle i wella ansawdd drwy adolygiadau gan gymheiriaid. Mae'r rhaglen Adolygiad drwy Wahoddiad yn wasanaeth cynghori a gynigir gan y GIG a sefydliadau yn y sector annibynnol yn y DU y byddai cael cyngor arbenigol ac annibynnol o fudd iddynt allu cefnogi datrysiadau y gweithredwyd arnynt yn lleol er mwyn gwella'r gwasanaethau anesthesia y maent yn eu cynnig.

3.2 AGIC yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru sy'n sicrhau'r gwaith o gynnal system sicrwydd ar gyfer gofal iechyd, sy'n hybu diogelwch a gofal clinigol o ansawdd uchel. Mae'r fframwaith arolygu llawfeddygol yn galluogi AGIC i arolygu adrannau anestheteg yng Nghymru.

3.3 Mae Coleg Brenhinol yr Anesthetegyddion ac AGIC wedi cytuno i gyfnewid gwybodaeth berthnasol er mwyn cefnogi darpariaeth gwasanaethau anaestheteg o ansawdd uchel er budd cleifion.

4. DIBEN Y MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

4.1 Diben y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yw diffinio'r trefniadau y bydd yn berthnasol i Goleg Brenhinol yr Anesthetegyddion ac AGIC wrth iddynt gyfnewid gwybodaeth.

4.2 Deallir y bydd y Partïon sy'n ymrwymo i'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn bwriadu bodloni eu holl rwymedigaethau.

5. Y TREFNIADAU AR GYFER CYFNEWID GWYBODAETH

5.1 Pan fo'n briodol, bydd AGIC yn rhannu data a gwybodaeth berthnasol am unrhyw waith arolygu ac adolygu sy'n ymwneud â lleoliadau theatr neu leoliadau eraill lle defnyddir anesthesia megis mewn obstetreg, mewn argyfwng, ac wrth ddefnyddio Delweddau Atseiniol Magnetig ac ECT.

5.2 Bydd AGIC yn darparu rhestr o leoliadau llawfeddygol yng Nghymru. Bydd Coleg Brenhinol yr Anesthetegyddion yn darparu gwybodaeth am ble mae'r adran anestheteg arni o ran rhoi safonau gofal Achrediad Gwasanaethau Clinigol Anesthesia (ASCA) ar waith, yn unol â geiriad Fframwaith Arolygu Llawfeddygol AGIC y cytunwyd arno a Hunanasesu Cyn Arolygiad:

- Achrediad ASCA wedi'i gyflawni ac ymgysylltu parhaol â'r cynllun.
- Ymweliad wedi'i gynnal gan ASCA – Heb gyflawni Achrediad ASCA eto.
- ASCA ffurfiol ar waith (ac wedi cysylltu â Choleg Brenhinol yr Anesthetegyddion). ASCA heb ymweld â'r adran eto.
- Nid oes unrhyw gynllun gwella ffurfiol ASCA ar waith.

5.3 Hefyd, bydd Coleg Brenhinol yr Anesthetegyddion yn rhoi gwybod i AGIC bob chwarter am unrhyw adolygiadau drwy wahoddiad sydd wedi'u cynnal o fewn yr ysbytai.

5.4 Ni all Coleg Brenhinol yr Anesthetegyddion ddarparu copiau o'r adroddiadau ar gyfer ASCA na'r Adolygiadau drwy Wahoddiad am eu bod yn eiddo i'r bwrdd iechyd.

5.5 Bydd Coleg Brenhinol yr Anaesthetegyddion ac AGIC yn parhau i sicrhau bod parthau Arolygu Llawfeddygol AGIC yn cyfateb i safonau ASCA.

5.6 Bydd holl drefniadau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

6. ADOLYGU'R MEMORANDWM CYD-DDEALLTWRIAETH

6.1 Bydd y memorandwm cyd-ddealltwriaeth yn dod i rym o 21 Ionawr 2019 a bydd yn cael ei adolygu'n ffurfiol bob 3 blynedd, neu ynghynt os yw'r ddau barti wedi cytuno ar hynny.

Llofnodwyd dros ac ar ran y partïon y memorandwm cyd-ddealltwriaeth hwn

Llofnodwyd dros ac ar ran Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Dr Kate Chamberlain

Prif Weithredwr

Dyddiad 18 Ionawr 2019



Llofnodwyd dros ac ar ran Coleg Brenhinol yr Anesthetegyddion

Sharon Drake

Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol, Cyfarwyddwr Ansawdd Clinigol ac Ymchwil

Dyddiad 14 Ionawr 2019

A handwritten signature in black ink, appearing to be 'J. P. ...', written in a cursive style.